

# Mae arnom ni angen eich cymorth!

Rhannwch eich storiâu a'ch lluniau\* o sychder a defnydd dŵr trwy:

- ✘ Post:  
Lindsey McEwen – prosiect DRY  
Adran Ddaearyddiaeth a Rheoli Amgylcheddol, Prifysgol Gorllewin Lloegr  
Campws Frenchay  
Coldharbour Lane  
Bryste, y DU, BS16 1QY
- ✘ E-bost: DRY@uwe.ac.uk
- ✘ Gwefan:  
[www.http://dryproject.co.uk/our-uk-river-catchments/ebbw/](http://dryproject.co.uk/our-uk-river-catchments/ebbw/)
- ✘ Ymunwch â'r trafodaethau ar-lein trwy ein fforwm:  
<http://dryproject.co.uk/forums/>
- ✘ Rhannwch eich lluniau a'ch atgofion o sychder blaenorol a phresennol a defnydd dŵr lleol ar Afon Ebwy ar Twitter:  
@Project\_DRY
- ✘ Ymunwch â gweithdy er mwyn mynegi eich barn am reoli dŵr, sychder a defnydd dŵr yn ardal Ebwy:  
Ffôn: +44 (0) 117 32 87024
- ✘ Cwblhewch ein holiadur am ddefnydd dŵr yn y cartref:  
<http://dryproject.co.uk/about-the-project/community-water-survey/>

Mae'r prosiect hwn ar fynd hyd at ddiwedd 2017.

\*Bydd yr holl ddeunyddiau yn cael eu dychwelyd. Os yn bosibl, anfonwch gopi o unrhyw lun neu ddeunydd gwreiddiol.

Lluniau o rannau gwahanol o Afon Ebwy sydd ar flaen y daflen. Mae'r lluniau wedi eu hargraffu trwy garedigrwydd Ian Brewer, Casnewydd.

Yn y dalgylch hwn mae gennym ni dîm prosiect sy'n cynnwys aelodau o:



University of the West of England



Centre for Ecology & Hydrology  
NATURAL ENVIRONMENT RESEARCH COUNCIL

Rydym ni'n cydweithio gyda'r sefydliadau allanol hyn er mwyn cynnwys eu harbenigedd yn y prosiect:



Cyfoeth Naturiol Cymru  
Natural Resources Wales



Mae'r prosiect DRY yn cael ei ariannu gan:



E · S · R · C  
ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL



Arts & Humanities Research Council



## Perygl Sychder a Chi: Afon EBWY



# Sychder ym Mhrydain – mae arnom ni angen eich storïau a'ch profiadau chi er mwyn llunio polisi'r dyfodol



## Perygl Sychder a Chi

Mae sychder a phrinder dŵr yn cael effaith arnom ni i gyd gan eui bfod yn dylanwadu ar yr amgylchedd, amaethyddiaeth, isadeiledd, cymdeithas a diwylliant.

Mae'r Prosiect DRY (Drought Risk and You) yn edrych ar effaith sychder ar saith dalgylch afon yn Lloegr, Cymru a'r Alban.

Bydd y prosiect yn fodd o gyfnewid gwybodaeth ymysg gwyddonwyr sychder a chymunedau'r dalgylch. Mewn cyfres o weithdai byddwn ni'n cofnodi barn pobl lleol wrth iddyn nhw rannu eu storïau am sychder a defnydd dŵr.

Rydym ni'n cydweithio gyda sefydliadau lleol i gynllunio'r ymchwil a chynnwys eu harbenigedd yn y prosiect.

## Oeddech chi'n gwybod...?

- Mae sychder yn rhywbeth naturiol sy'n digwydd ar ôl cyfnod hir o brinder glaw (sef 15 diwrnod yn olynol ym Mhrydain gyda llai na 0.20mm o law y diwrnod).
- Mae difrifoldeb a dylanwad sychder yn amrywio gan ddibynnu ar ei hyd, daearyddiaeth ffisegol a defnydd dyn o'r tir a'r dŵr.
- Bu'r sychder mwyaf enwog ym Mhrydain yn 1976. Roedd hi eisoes wedi bod yn aeaf sych ac yn dilyn hyn bu un o'r hafau poethaf a sychaf i'w cofnodia gofnodwyd.
- Gall sychder gynyddu'r risg o lifogydd yn dilyn hyn.
- Mae amrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, rheoli adnoddau dŵr a newid defnydd tir, poblogaeth a defnydd dŵr oll yn effeithio ar sychder a phrinder dŵr.



Ydych chi wedi ystyried cynllunio ar gyfer effeithiolrwydd dŵr yn y dyfodol?



Sut ydych chi'n gwarchod dŵr yn eich cartref a'ch gardd?

Ydych chi'n meddwl bod cyswllt rhwng sychder, llifogydd a newid yn yr hinsawdd?

## Pam yr Afon Ebwy?

- Mae gan yr ardal hanes cymhleth o waith diwydiannol gwahanol (cloddio, dur, coedwigaeth) sy'n chwarae rhan ym mherthynas y cymunedau gyda'r afon.
- Gallai sychder ffyrnigo tân ac erydiad ar y comin.
- Mae'r Afon Ebwy yn agos at waith datblygu newydd o bwys, Cylch Cymru fydd efallai'n cael effaith ar waith rheoli dŵr yn yr ardal.
- Mae llawer o grwpiau cymunedol a 'gwylwyr afon' sydd â gwybodaeth am faterion rheoli dŵr lleol a beth ydy eu dylanwad.

'Mae pobl yn greaduriaid sy'n hoffi adrodd straeon a thrwy ddod ag adrodd straeon yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â sychder a defnydd dŵr, rydym ni'n dod â lleisiau newydd, sydd heb eu clywed o'r blaen, yn rhan o'r sgwrs.'

Michael Wilson (Prifysgol Loughborough)